# Tasg 3

# Beth nesaf?

Ar ddiwedd y sgwrs, mae Chris yn dweud,

**Wel, dw i wedi cael llond bol y tro yma a dw i wedi gwneud penderfyniad.**

Beth mae Chris wedi penderfynu, tybed?

**Mewn grŵp:**

1. Rhaid i bawb ysgrifennu syniad ar *post-it* a'i roi ar ganol y bwrdd.
2. Yn ei dro, rhaid i bawb gyflwyno'i syniad a'i egluro, e.e.

**Dw i'n meddwl bod Chris yn … ac yna mae e'n / o'n … ac yn …**

Tybed oes rhai ohonoch chi wedi meddwl am yr un syniad?

**Yn unigol:**

3. Datblygwch eich syniad, e.e. gallech chi:
    - ysgrifennu sgwrs arall rhwng Chris a Jo – i barhau'r sgwrs yma
    - ysgrifennu sgwrs rhwng Chris a'i fam
    - ysgrifennu stori am beth mae Chris yn ei wneud nesaf

Cewch chi benderfynu.

4. Ar ôl gorffen a gwirio'ch gwaith, darllenwch y gwaith yn uchel i'r grŵp.